

Creu fideo o PowerPoint

Un o'r ffyrdd cyflymaf a hawsaf o greu fideo yw defnyddio PowerPoint. Mae'r canllaw hwn yn eich tywys trwy broses 3 cham:

1. Creu eich cyflwyniad PowerPoint
2. Ychwanegu trosleisio
3. Allforio (creu) eich fideo


Felly byddwn hefyd yn darparu cyngor ar sut i gyflwyno eich fideo i TurnItIn i'w farcio.

1. Creu eich cyflwyniad PowerPoint

Gallwch greu eich cyflwyniad PowerPoint yn ôl eich arfer. Dylech gofio y bydd myfyrwyr yn gwylio ac yn gwrando ar hyn, felly dylai fod cyn lleied o destun ag y bo modd. Ystyriwch ddefnyddio delweddau a diagramau i ategu eich cyflwyniad, gan ddefnyddio testun ar gyfer pwyntiau allweddol a geiriau allweddol yn unig.

I ddysgu rhagor am yr effaith gadarnhaol y gall Codio Deuol ei chael, gweler


<https://www.olicav.com/>. Gallai'r isod [PowerPoint on Dual Coding](#) o ResearchEd Birmingham fod yn arbennig o ddefnyddiol

Da: Ychydig o destun i sbarduno trafodaeth. Wedi ei drefnu'n glir gyda diagramau/delweddau ar gyfer cymorth	Gwael: Yn drwm o ran testun sy'n cael ei ddefnyddio'n sgript. Fawr ddim ystyriaeth i'r cyflwyno
	


Gair i Gall

Ychwanegu Fideos o YouTube

1. Dewch o hyd i'r fideo o YouTube yr hoffech ei chorffori yn eich cyflwyniad.
2. Copiwch y cyfeiriad fideos o'r bar cyfeiriad:



3. Yn PowerPoint, dewiswch INSERT, wedyn VIDEO ac ONLINE VIDEO (gallai hyn fod yn wahanol yn ôl y fersiwn o PowerPoint rydych yn ei defnyddio)




4. Bydd blwch dros dro yn ymddangos ar eich sgrin. Gludwch y cyfeiriad gwefan a chlicio ar INSERT i ychwanegu eich sleid PowerPoint.

Er mwyn lanlwytho fideo ar eich dyfais, gallwch ddewis VIDEO FROM FILE yn hytrach na ffilm ar-lein, ac wedyn dewis y fideo yr hoffech ei chorffori.


Animeiddio eich sleidiau (animeiddiadau syml)

Gall animeiddiadau mewn PowerPoint fod yn ffordd ddefnyddiol o wneud eich cyflwyniadau yn fwy gafaelgar. Mae animeiddiadau yn caniatáu i ni reoli pryd (a sut) y bydd elfennau sleid yn ymddangos e.e. y cyfan ar unwaith, fesul pwynt bwled/delwedd.


Unwaith y byddwch wedi creu sleid gallwch ychwanegu eich animeiddiadau. Nodir y camau isod (os nad ydych yn gyfarwydd ag animeiddiadau PowerPoint, efallai y bydd hi'n haws i chi ddyblygu'r sleid hon).




1. Dewiswch yr eitem/elfen yr hoffech ei hanimeiddio (yma byddaf yn dewis y testun ar gyfer Pwynt 1)
2. Ar y bar uchaf dewiswch ANIMATIONS
3. Yma gallwch ddewis y math o animeiddio yr hoffech ei gael (1) a phryd yr hoffech i'r animeiddio ddigwydd (2). Mae hyn wedi ei osod i gliciad llygoden trwy osodiad diofyn.



4. Gallwch ddefnyddio elfennau eraill fesul un er mwyn defnyddio animeiddiadau gyda nhw. Fe welwch y drefn y bydd yr elfen honno'n ymddangos ynddi trwy'r rhif bach wrth ei hochr:




Yn yr enghraifft hon, gallwch weld bod y drefn y mae'r eitemau'n ymddangos ynddi yn anghywir (rydym am gael pwynt 2 cyn pwynt 3). Ar y dde, gallwch ad-drefnu'r eitemau a animeiddiwyd trwy glicio arnynt a'u llusgo o gwmpas ar y CWAREL ANIMEIDDIO (1). Os nad yw hwn yn weladwy, galwch ddewis y botwm ANIMATION PANE o'r pecyn offer (2)




Dod o hyd i ddelweddau Creative Commons

Gellir defnyddio delweddau Creative Commons yn rhad ac am ddim ar yr amod nad yw hynny er elw. Chwilio am ddelweddau i'w cynnwys mewn PowerPoint:

1. Dewiswch INSERT, PICTURES, ONLINE PICTURES
2. Bydd hyn yn agor y chwiliad ONLINE PICTURES
3. Teipiwch y ddelwedd yr hoffech ddod o hyd iddi a chlicio ar y blwch CREATIVE COMMONS



SYLWER: Os ydych yn defnyddio Google, gallwch chwilio am ddelwedd ac wedyn dewis TOOLS (1), wedyn USAGE RIGHTS (2) i ddewis y math o drwydded y mae arnoch ei hangen.



Cofiwch ychwanegu nodyn sy'n cydnabod ffynhonnell y llun yn eich sleidiau yn rhywle. Cydnabod y creawdwr gwreiddiol yw un o amodau defnyddio delweddau Creative Commons.


2. Ychwanegu trosleisio

Ar gyfer y cam hwn, bydd angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn defnyddio'r rhaglen PowerPoint ar naill ai'r Mac neu Gyfrifiadur Personol (yn hytrach na fersiwn ar-lein). Hefyd, bydd angen bod gennych ficroffon. Mae'r rhain yn osodiadau diodyn ar y rhan fwyaf o liniaduron. Gallwch greu trosleisio ar bob sleid ar wahân, yn hytrach na gorfod ail-recordio'r fideo cyfan os gwnewch chi gamsyniad.


Nodyn i ddefnyddwyr Mac: Mae'r lluniau a'r cyfarwyddiadau isod yn ymwneud â PowerPoint 2016 ar gyfrifiadur personol. Mae gweithrediad Mac yn debyg, ond nid yw'n hollol yr un peth. Os yw KeyNote gennych, efallai yr hoffech ddefnyddio hwnnw, yn hytrach na PowerPoint. Gallwch recordio'r sain mewn ffordd debyg iawn i'r un a ddisgrifir isod. Yn KeyNote dewiswch 'Play' > 'Record Slideshow' i ddewis yr opsiwn er mwyn ychwanegu sain at eich sleidiau.

Yn PowerPoint ar y cyfrifiadur personol...


1. Cliciwch ar y sleid gyntaf
2. O'r ddewislen dewiswch Slideshow > Record Slideshow a Start Recording o'r sleid bresennol.



3. Yn y ffenestr dros dro, sicrhewch fod tic yn y blychau a chlicio ar 'Start Recording'



Unwaith y dechreuwch recordio, fe welwch ffenestr newydd ar y brig ar y dde (gallai hyn amrywio yn dibynnu ar eich fersiwn o'r swyddfa, ond bydd y saethau'n gweithio yn yr un modd):



Cewch ddefnyddio'r saeth wrthdro i fynd yn ôl a dechrau eto os gwnewch gamsyniad. Bydd y saeth ymlaen yn eich symud i'r sleid/animeiddiad nesaf a bydd yr eicon oedi yn oedi'r recordiad.

Mae'r trosleisio ar gyfer pob ochr wedi ei recordio ar wahân, felly os gwnewch gamsyniad ar sleid 8, dim ond hwnnw y mae angen i chi ei ail-wneud.


Awgrymwn, unwaith yr ydych yn hapus gyda'ch sleid gyntaf, eich bod yn clicio ar y saeth i symud ymlaen ac wedyn taro'r botwm oedi yn syth. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi gasglu eich meddyliau cyn i orffen yr oedi a dechrau recordio'r naratif ar gyfer y sleid hon.

4. I orffen recordio, cliciwch ar yr 'X' ar frig y ffenest recordio dros dro.

Cewch chi wrando eto ar eich recordiad trwy glicio ar yr eicon sain a fydd yn ymddangos yng ngwaelod pob sleid ar y dde mae'r sain wedi ei recordio ar ei gyfer

Os hoffech ddileu darn sain neu ail-recordio, dewiswch eicon y siaradwr a'i ddileu.

Os hoffech dynnu sylw at ran benodol o'ch sleid wrth i chi siarad, gallwch ddefnyddio'r dulliau anodi arferol sy'n bodoli yn PowerPoint, gan gynnwys yr argraffydd laser a'r pen. Gellir mynd at y rhain trwy'r ddewislen a fydd yn ymddangos pan fyddwch yn hofran dros adran waelod eich sleid ar y chwith wrth i chi gyflwyno




Cewch chi wrando yn ôl ar y sioe gyfan trwy redeg y PowerPoint yn ôl yr arfer.

3. Allforio eich Fideo

Unwaith y byddwch wedi ychwanegu fideo at bob un o'ch sleidiau, rydych yn barod i greu eich fideo.

1. O'r ddewislen File, dewiswch 'Export' a 'Create a Video'

Argymhellwn ddefnyddio sesiwn 'Ansawdd Rhyngrwyd'.



Sylwer: ar Mac efallai y bydd rhaid i chi ddewis FILE, EXPORT ac wedyn dewis MP4 o gwymplen fformat ffeiliau.

2. Cadwch y fideo ar eich cyfrifiadur, gan adael y math o ffeil yn Fideo MPEG-4

Gallai gymryd rhai munudau i greu'r fideo. Gallwch weld y cynnydd mewn bar ar waelod PowerPoint


PEIDIWCH â chau PowerPoint tra bydd y fideo'n cael ei chreu

3. Mae'n bwysig, unwaith y bydd y fideo wedi ei chreu eich bod yn ei gwyllo o'i chwr CYN cyflwyno i sicrhau bod unrhyw broblemau gyda'r creu yn cael eu nodi a'u datrys cyn i chi gyflwyno.

Cyflwyno eich fideo

Unwaith y bydd eich fideo wedi ei chreu, dylech ei lanlwytho ar OneDrive.

Unwaith y bydd wedi ei Lanlwytho, dewiswch 'Share' a 'Copy Link'. Wedyn gallwch ychwanegu'r ddolen at y templed perthnasol a'i Lanlwytho ar Moodle.



PEIDIWCH â cheisio lanlwytho'r fideo ar Moodle yn syth. Bydd y ffeil yn rhy fawr.